



Rhaglen Lywodraethu

**Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng
2026 a 2030**



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Uchelgais newydd i Gymru: Rhaglen Lywodraethu 2026-2030.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 39**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

E-bost: cymorth@llyw.cymru



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall. [Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.](#)

Cynnwys

Am ein Rhaglen Lywodraethu.....	4
Ein blaenoriaethau.....	6
1. Gwellu iechyd a gofal cymdeithasol	6
2. Helpu teuluoedd gyda chostau byw	11
3. Busnes a swyddi	15
4. Gwellu ysgolion a helpu plant i wneud yn dda	20
5. Rhoi'r dyfodol gorau i bob plentyn yng Nghymru.....	23
6. Sefyll i fyny dros Gymru	26
7. Sut fyddwn ni'n gweithio ar ein blaenoriaethau.....	29
Beth sy'n digwydd nesaf	37
Geiriau anodd	39

Am ein Rhaglen Lywodraethu



Ein **Rhaglen Lywodraethu** ydy ein cynllun gweithredu swyddogol.



Mae'n nodi ein prif nodau ac yn dweud sut fyddwn ni'n eu cyflawni.



Mae'r cynllun yma yn dweud beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2026 a 2030.

Mae'n dweud wrthych chi am:



- Ein **blaenoriaethau** - pethau rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw i ddatrys problemau.



- Beth rydyn ni eisiau ei wneud i wella gwasanaethau.



Ein blaenoriaethau



Dyma'r prif bethau rydyn ni am eu gwella yng Nghymru.

1. Gwella iechyd a gofal cymdeithasol

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Lleihau amseroedd aros ar gyfer profion, triniaeth a llawdriniaethau.



- Gwneud yn siŵr bod gofal yn agosach at gartrefi pobl er mwyn lleihau unrhyw oedi mewn triniaeth a gofal.



- Agor canolfannau llawfeddygol newydd ar draws Cymru.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael gofal da sy'n ateb eu hanghenion.



- Gwella gofal i bobl sydd â:
 - Anghenion iechyd meddwl.
 - Canser.
 - Dementia.
 - Problemau'r galon.
 - Diabetes.
 - Problemau llygaid.



- Gwella iechyd a gofal i fenywod a merched.



- Gwella gofal i bobl sy'n marw.



- Cael mwy o feddygon teulu i'w gwneud hi'n haws cael gofal.



- Gwella mynediad at gymorth iechyd meddwl.



- Gwneud hi'n haws cael gofal deintyddol.
Gwneud yn siŵr bod digon o ddeintyddion mewn ardaloedd lleol.



- Gwella sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu rheoli a'u trefnu.



- Gweithio ar greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru. Fe fyddai hwn yn debyg i'r GIG, ond ar gyfer gofal cymdeithasol.



- Gwneud i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n well gyda'i gilydd.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd angen help ychwanegol yn cael y gefnogaeth gywir i'w cadw'n ddiogel. Gwneud yn siŵr bod gwahanol sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i gadw pobl yn ddiogel.

2. Helpu teuluoedd gyda chostau byw

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Ariannu gofal plant i blant rhwng 9 mis a 4 oed. Fe fydd hyn yn cael ei wneud yn araf, dros amser. Fe fydd teuluoedd yn gallu cael hyd at 20 awr o ofal plant bob wythnos.



- Cael mwy o leoedd gofal plant lle mae plant yn gallu dysgu a derbyn gofal yn Gymraeg.



- Gwneud **System Budd-daliadau Cymru** yn haws i'w defnyddio. Fe fydd hyn yn helpu pobl i gael yr arian a'r gefnogaeth y dylen nhw eu cael.



Mae **System Budd-daliadau Cymru** yn wahanol fathau o help a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol. Mae hyn yn gallu helpu pobl gyda chostau bob dydd. Er enghraifft, mae'n gallu cynnwys:

- Prydau ysgol am ddim.
- Presgripsiynau am ddim.
- Help gyda'r dreth gyngor.
- Help gyda gofal plant.



- Rhoi hawliau a diogelwch cryfach i bobl sy'n rhentu cartrefi. Fe fyddwn ni'n gweithio i wneud rhent yn deg ac yn fwy fforddiadwy.



- Darparu o leiaf 20 mil yn fwy o gartrefi cymdeithasol erbyn 2030. Mae cartrefi cymdeithasol yn gartrefi sydd yn cael eu darparu gan gynghorau neu gymdeithasau tai. Maen nhw fel arfer yn cael eu rhentu am gost is na chartrefi preifat.



- Gwneud cartrefi yn fwy diogel ac ynni-effeithlon. Mae hyn yn meddwl cartrefi sy'n defnyddio llai o ynni ac yn helpu i ostwng biliau ynni.



- Edrych ar wneud y Dreth Gyngor yn decach.



- Defnyddio'r trethi yng Nghymru i helpu i dalu am **wasanaethau cyhoeddus** pwysig.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn wasanaethau mae'r Llywodraeth yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft, cynghorau lleol, y GIG a gwasanaethau tân ac achub.



3. Busnes a swyddi

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Dod o hyd i ffyrdd o helpu busnesau i wneud yn dda gyda'r adnoddau sydd ganddyn nhw.



- Rydyn ni eisiau i fusnesau yng Nghymru dyfu a chreu mwy o swyddi. Rydyn ni eisiau i Gymru ddal i fyny â rhannau eraill o'r DU dros y 10 mlynedd nesaf.



- Sefydlu sefydliad newydd i helpu busnesau Cymru i dyfu.



- Ei gwneud hi'n haws i fusnesau dyfu.



- Annog gwasanaethau cyhoeddus i brynu mwy gan fusnesau Cymru.



- Cefnogi busnesau'r stryd fawr. Mae hyn yn cynnwys siopau, bwytai a busnesau eraill.



- Edrych ar ffyrdd o wella ein canol trefi. Fel dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio adeiladau gwag.



- Gwneud cynllun sgiliau newydd i Gymru. Helpu pobl i gael y sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer swyddi da.



- Gweithio i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu byw, astudio a gweithio yn Ewrop.



- Creu cynllun newydd i helpu busnesau i ddefnyddio technoleg ddigidol.



- Gwneud yn siŵr bod **AI** yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Technoleg ar-lein yw AI. Rydych chi'n gallu sgwrsio ag ef a gofyn iddo roi gwybodaeth i chi neu eich helpu gyda thasgau ar-lein.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl deithio o gwmpas Cymru. Fe ddylai pobl allu teithio'n ddiogel ac yn hawdd.




- Helpu Maes Awyr Caerdydd a phorthladdoedd yng Nghymru i dyfu a chefnogi economi Cymru.



- Cefnogi'r cymunedau sy'n dibynnu ar ffermio a physgota.



- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau'r llywodraeth yn ateb anghenion cymunedau cefn gwlad.



- Creu cynllun ynni cenedlaethol. Fe fydd hyn yn edrych ar faint o ynni sydd ei angen ar Gymru nawr ac yn y dyfodol.



- Cefnogi ynni **glân ac adnewyddadwy** a sut mae pobl yn gallu elwa o brosiectau newydd.




Mae ynni **adnewyddadwy** yn meddwl ynni wedi'i wneud o bethau fel y gwynt a'r haul.



- Creu cwmni ynni cenedlaethol.



- Hyrwyddo Cymru fel lle gwyd i ymweld ag ef. Dathlu diwylliant ac iaith Cymru.



4. Gwella ysgolion a helpu plant i wneud yn dda

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Cyhoeddi cynllun newydd i wella darllen, ysgrifennu a mathemateg.



- Gosod nodau i helpu i wella ysgolion.



- Edrych ar sut mae'r cwricwlwm a'r asesiadau yn gweithio. Gwneud nhw'n haws i ysgolion eu deall.



- Helpu ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u lles.



- Dod ag ysgolion a gwasanaethau eraill at ei gilydd. Gwella cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen help ychwanegol.



- Helpu mwy o bobl ifanc i wneud yn dda a symud rhwng addysg, hyfforddiant a gwaith.



- Creu mwy o gyfleoedd i astudio a gweithio yn y Gymraeg. Cynnwys mwy o athrawon Cymraeg a mwy o gyrsiau yn y Gymraeg.



- Cefnogi athrawon trwy leihau eu llwyth gwaith a rhoi mwy o hyfforddiant.



- Annog mwy o bobl i ddod yn athrawon. Yn enwedig mewn pynciau lle nad oes digon o athrawon.



- Gwneud yn siŵr bod ysgolion, athrawon a phlant yn gwybod sut i gadw'n ddiogel. Fel gwybod am ddiogelwch ar-lein.



5. Rhoi'r dyfodol gorau i bob plentyn yng Nghymru

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Gweithio gyda phartneriaid eraill i wneud cynllun newydd i leihau **tlodi** plant.



Tlodi ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i dalu am bethau sylfaenol fel bwyd neu wresogi.



- Gofyn i Lywodraeth y DU wneud newidiadau i gymorth a budd-daliadau tai. Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.



- Gweithio tuag at brofi taliad newydd o'r enw Cynnal.



- Mae hwn yn Daliad Plant newydd yng Nghymru i helpu i ddelio gyda thlodi plant. Fe fydd teuluoedd â phlant ifanc sy'n cael budd-daliadau yn cael arian bob wythnos.



- Darparu prydau ysgol am ddim i fyfyrwyr ysgol uwchradd y mae eu teuluoedd yn cael Credyd Cynhwysol.



- Gweithio i stopio trais a chamdriniaeth. Cam-drin ydy pan fydd rhywun yn dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n ddrwg.



- Cefnogi pobl sydd wedi profi trais neu gamdriniaeth.




- Gweithio i wneud Cymru'n deg ac yn gyfartal i bawb.



- Cefnogi pobl sy'n dod i Gymru i fod yn ddiogel.



- Gwneud yn siŵr bod **cyn-filwyr** a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen. Mae **cyn-filwyr** yn bobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.



6. Sefyll i fyny dros Gymru

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n:



- Gofyn i Lywodraeth y DU am gyllid tecach i Gymru. A mwy o reolaeth dros drethi yng Nghymru.



- Gofyn am fwy o arian a mwy o reolaeth dros wasanaethau rheilffyrdd Cymru.



- Gwneud hen domenni glo yn ddiogel. Mae tomenni glo yn bentyrrau o ddarnau o lo a cherrig heb eu defnyddio o fwyngloddio. Gwneud yn siŵr bod Llywodraeth y DU yn talu am y gwaith yma.



- Gofyn am fwy o bŵer i wneud penderfyniadau pwysig. Fe fydd hyn yn ein helpu i wneud cynlluniau i helpu pobl.



- Gwneud cynllun i helpu pobl i fwynhau diwylliant, celfyddydau a chwaraeon. Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan.



- Adeiladu cysylltiadau cryfach gyda gwledydd eraill.



- Cefnogi digwyddiadau rhyngwladol yng Nghymru. Gan gynnwys y Tour de France a phêl-droed Euro 2028.



- Helpu **gwasanaethau cyhoeddus** i weithio gyda'i gilydd i stopio troseddu a chadw pobl yn ddiogel.



7. Sut fyddwn ni'n gweithio ar ein blaenoriaethau

Iechyd a lles

Fe fyddwn ni'n:



- Canolbwyntio ar stopio pobl rhag mynd yn sâl. A helpu pobl i gadw'n iach.



- Gwella iechyd a lles ar draws Cymru.



- Rhoi cadw pobl mewn iechyd da ym mhob cynllun llywodraeth.



- Gwneud cynlluniau i stopio lledaeniad clefydau. Rydyn ni eisiau stopio rhai clefydau rhag lledaenu yng Nghymru erbyn 2030. Er enghraifft, HIV.



- Gwella tai a helpu pobl i gael cartrefi diogel.




- Cyflwyno rhaglen genedlaethol nofio a diogelwch dŵr ar gyfer ysgolion. Fe fydd hyn yn helpu plant i gadw'n ddiogel yn y dŵr ac o'i gwmpas.

Newid yn yr hinsawdd

Fe fyddwn ni'n:



- Cymryd camau i ddelio gyda **newid yn yr hinsawdd**.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, gwneud i leoedd fynd yn fwy cynnes, gwlyb neu sych.. Mae'r newidiadau yma yn achosi pethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt i waethygu.



- Creu cynllun i helpu i ddiogelu ein hinsawdd a'n natur.

2040

- Cymryd camau i helpu Cymru i gyrraedd **sero net** erbyn 2040.



Mae **sero net** yn meddwl peidio rhoi mwy o nwy niweidiol yn yr aer nag rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono..

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- Gostwng faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi yn yr aer.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.



- Creu sefydliad i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n diogelu'r amgylchedd.

Cymraeg

Fe fyddwn ni'n:



- Gwneud cynllun newydd i gefnogi'r Gymraeg. Helpu mwy o bobl i siarad Cymraeg a'i defnyddio bob dydd. Rydyn ni eisiau i 1 miliwn neu fwy o bobl siarad Cymraeg erbyn 2050.



- Cefnogi'r Gymraeg mewn cymunedau a gweithleoedd.



- Gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn **gwasanaethau cyhoeddus** a sefydliadau. Fel ieuchyd, tai, addysg a thrafnidiaeth.

Cynhyrchiant



Helpu busnesau yng Nghymru i dyfu drwy wella trafnidiaeth, cynllunio a sgiliau.

Deddfau newydd

Fe fyddwn ni'n:



- Gwneud deddfau newydd pan mae angen i wella bywydau pobl.



- Rhoi gwybod i'r Senedd am ddeddfau newydd.



- Weithiau, efallai y bydd angen i Lywodraeth y DU wneud y ddeddf. Fe fyddwn ni'n gweithio gyda nhw pan fydd hyn yn digwydd.

Cadw Cymru'n ddiogel

Fe fyddwn ni'n:



- Gweithio i gadw pobl yng Nghymru yn ddiogel. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael cymorth gan **wasanaethau cyhoeddus** mewn argyfwng.



- Paratoi ar gyfer argyfyngau fel tanau gwyllt a llifogydd.



- Dysgu o argyfyngau a digwyddiadau eraill. Er enghraifft, gwersi sydd wedi eu dysgu o beth ddigwyddodd yn ystod Covid.



- Dod â sefydliadau at ei gilydd i weithio ar lifogydd. Mae hyn yn cynnwys cynghorau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, gwasanaethau brys a grwpiau cymunedol.

Gweithio gyda'n gilydd

Fe fyddwn ni'n:



- Gweithio'n agosach gyda chynghorau lleol i wella **gwasanaethau cyhoeddus**.



- Edrych ar sut mae cynghorau yn cael cyllid teg i ddarparu'r gwasanaethau yma.

Beth sy'n digwydd nesaf



Mae hwn yn **gynllun mawr ar gyfer y 4 blynedd nesaf.**



Fe fyddwn ni'n edrych i weld os ydy ein cynlluniau yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.



Fe fyddwn ni'n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru.



Fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud i'r newidiadau yma ddigwydd.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod arian yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n helpu pobl yng Nghymru.



Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar y pethau pwysicaf i wneud newidiadau yn gyflym.

Geiriau anodd

Gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau mae'r Llywodraeth yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft, cynghorau lleol, y GIG a gwasanaethau tân ac achub

Sero net

Mae sero net yn meddwl peidio rhoi mwy o nwy niweidiol yn yr aer nag rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- Gostwng faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi yn yr aer.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.